cwmpawd

eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd

Rhif 55
Chwefror - Mawrth 2009

Golygyddol

Gwynn Williams

Mae 2009 yn flwyddyn a fydd yn llawn dathliadau, a llawer o'r rheini'n werthfawr i ni fel Cristnogion. Rhoddwn sylw yn ystod y flwyddyn i rai o'r dathliadau Cristnogol yn y *Cwmpawd*.

Y dathliad a gaiff y sylw mwyaf o bell ffordd, mae'n siŵr, fydd nodi 150 mlynedd ers i Darwin ysgrifennu ei lyfr *The Origin of Species*. Heb os, bydd yna raeadr o raglenni teledu, erthyglau ac arddangosfeydd i ddathlu hyn, a'r cyfan yn hybu'r syniad mai esblygiad sy'n esbonio dechrau bywyd yn hytrach na'r syniad beiblaidd o Dduw yn creu. Rhydd hyn gyfle i ni ddadlau ein hachos gan gofio sylw John Calfin fod Duw wedi ysgrifennu dau lyfr – y cread a'r Beibl – a phan fyddwn yn deall y ddau yn iawn fe gawn eu bod yn gytûn.

Daw hyn â ni yn dwt at ddathliad arall o bwys, sef 500 mlwyddiant geni John Calfin, gŵr arbennig iawn a roddodd ei fywyd i astudio'r Ysgrythur a'i dehongli. Roedd yn bregethwr diflino ac yn awdur esboniadau ar bob llyfr o'r Beibl ac eithrio llyfr y Datguddiad. Rhydd hyn gyfle i ninnau i bwysleisio unwaith eto werth y Beibl mewn oes lle mae gwybodaeth feiblaidd, hyd yn oed ymysg Cristnogion, wedi disgyn yn affwysol o isel.

Ond yn ôl i 1859 a thrydydd dathliad sydd o ddiddordeb i ni yma yng Nghymru, sef y Diwigiad a fu yn y flwyddyn honno. Mae hyn yn ein hatgoffa bod Duw yn gallu ymyrryd mewn nerth a pheri i dyrfaoedd droi ato mewn edifeirwch a ffydd. Yn sicr nid oes weddi fwy i ni ei gweddïo na deisyf y cawn ninnau weld yr un peth yn digwydd eto yng Nghymru.

John Calfin (15

Noel Gibbard

Tra yn y coleg ym Mharis, roedd dau beth amlwg yn wir am John Calfin, sef ei allu meddyliol disglair, a'i ymlyniad cyndyn wrth yr Eglwys Babyddol. Ond daeth tro ar fyd. Parhaodd i astudio, ond gadawodd yr Eglwys Babyddol, oherwydd profodd y myfyriwr dröedigaeth sydyn. Dyna a ddywedodd ef ei hun am y profiad: tynnodd Duw ef allan o gors, a meistroli ei galon, oedd wedi caledi yn rhyfeddol. O ganlyniad i hyn, daeth Calfin yn un o arweinyddion y Diwygiad Protestannaidd. Cafodd wrthwynebiad ym Mharis, ac ar un achlysur bu'n rhaid iddo ddianc drwy ffenestr i le diogel.

Ymhen dwy neu dair blynedd ar ôl ei dröedigaeth, cyhoeddodd Calfin ei fersiwn cyntaf o *Bannau y Grefydd Gristnogol*, a fu'n ddylanwad aruthrol ar Gymru (er enghraifft, Cyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd, 1823), Ewrop ac America. Ceisiodd gymhwyso egwyddorion y gwaith ynninas Genefa, ond methiant oedd ei ymgais gyntaf ym 1536-8, oherwydd y gwrthwynebiad cryf i'w syniadau. Aeth yno yr ail waith ym 1540, a chyfarfu â Farel, un arall o'r diwygwyr. Gorchmynnodd yntau Calfin i aros yng Ngenefa, a'i rybuddio y byddai melldith ar y bywyd tawel a ddymunai Calfin ei gael yn Strasbourg. Dychrynodd Calfin, ac arhosodd yng Ngenefa hyd ei farw ym 1564. Gall Duw arwain mewn ffyrdd annisgwyl.

Y tro hwn, llwyddodd Calfin yn ei waith, fel gweinidog a threfnydd, ond dim ond ar ôl brwydr galed. Gwrthwynebwyd ef yn ffyrnig oddi mewn i'r ddinas, a phoenwyd Calfin ei hun gan sawl afiechyd, a hynny ar hyd ei fywyd. Cyfeiria at afiechydion fel milwyr yn ymosod arno,

09-1564)

gan enwi gwaedlif, wlsers, gowt, y garreg, poen stumog, poen dirdynnol yn ei goesau a chlwyf y marchogion ('piles'). Bwriad y diwygiwr oedd cael y ddinas, oedd yn uned lywodraethol, o dan awdurdod Gair Duw, hynny yw yr eglwys, a'r awdurdod sifil. Ei ddelfryd oedd sefydlu dinas Duw.

Ar wahân i'w gyhoeddiadau niferus, dylid cofio o leiaf bedwar peth am Calfin. Yn gyntaf, ei bwyslais canolog, sef penarglwyddiaeth Duw. Pwysleisiai fod Duw yn sofran ar bob cylch o fywyd; y bywyd personol; yr eglwys; y wladwriaeth; y ddaear, a'r holl fydysawd. Mae Duw yn sofran mewn iachawdwriaeth a rhagluniaeth. Ynghlwm wrth y pwyslais hwn oedd yr athrawiaeth am etholedigaeth. Credai Calfin mewn etholedigaeth i fywyd, ac etholedigaeth i farwolaeth; etholedigaeth ddeublyg.



Sail pob credo yw'r Beibl. Derbyniai Calfin y gred fod y Beibl yn ysbrydoledig ac anffaeledig, ond gwnaeth ei gyfraniad ei hun i'r athrawiaeth hon. Dylid cael tystiolaeth fewnol yr Ysbryd Glân i sicrhau'r crediniwr o ysbrydoliaeth ac awdurdod yr Ysgrythur. Dyma'r ail beth i'w gofio am Calfin. Nid ym moment y dystiolaeth y daw'r Beibl yn Air Duw, ond dyma'r pryd y caiff y Cristion y sicrwydd bod hyn yn wir. Mae'r Beibl yn wir, yn wrthrychol, beth bynnag a ddywedwn ni amdano; ond yn oddrychol, gwaith yr Ysbryd sy'n rhoi'r prawf o hynny.

Yn drydydd, cyflwynodd Calfin syniadau pendant am berthynas yr eglwys a'r wladwriaeth. Ar y naill law, dylai'r eglwys fod yn rhydd i lywodraethu ei bywyd ei hun (ffurf lywodraeth Bresbyteraidd), heb ymyrraeth oddi wrth y llywodraeth. Ar y llaw arall, dylid sicrhau perthynas rhyngddynt. Gwnaethpwyd hynny trwy gael henuriaid o'r eglwys yn aelodau o'r llywodraeth, yn arbennig y Cyngor Bychan. Felly, roedd yr eglwys yn gofalu am ei bywyd ei hun, a'r eglwys a'r llywodraeth yn llywodraethu holl fywyd y ddinas.

Y pedwerydd peth i'w gofio am Calfin yw ei waith yn sefydlu academi i addysgu myfyrwyr diwinyddol. Dyma goron ei waith yng Ngenefa. Cafodd y myfyrwyr addysg feiblaidd, Brotestannaidd, oleuedig, a thrwyddynt lledodd y Diwygiad Protestannaidd drwy'r Swistir ac i Ffrainc, mamwlad Calfin.

O Lundain i Wellington...

Ymgasglodd criw yn yr eglwys ar Chwefror 7 i ffarwelio â Hywel Williams sydd ar ei ffordd i Seland Newydd i ddechrau swydd yn yr Archif Genedlaethol yn Wellington.

Dymunwn y gorau i ti, Hywel, a'r teulu oll wrth ymgyfarwyddo â'r newid mawr yma. Gobeithiwn ddarllen peth o dy hanes yn *Cwmpawd* wedi i ti setlo.

Y Clybiau

Rydym yn bwriadu cynnwys arolwg byr o wahanol weithgareddau'r eglwys yn *Cwmpawd*. Dyma'r rhan gyntaf - sef crynodeb o'r hyn sy'n digwydd yn y clybiau i'r plant a'r bobl ifanc

Cylch y Plant Bach

Rwy'n credu ei bod hi'n deg dweud y byddai'r mwyafrif o aelodau'r capel yn cael sioc petaen nhw'n digwydd taro i mewn i'r adeilad ar fore dydd Gwener. Mae'r cadeiriau i gyd wedi eu clirio, a'r ystafell yn llawn beiciau, llithren, offer chwarae meddal, si-so, briciau, garej a cheir neu gegin chwarae, pramiau a sŵn! Croeso i Gylch y Plant Bach. Dyma gyfle anffurfiol i rieni a phlant fwynhau cwmni ei gilydd. Fel arfer bydd tua wyth oedolyn a deg o blant yn ymuno â ni.

Y patrwm arferol yw bod y rhieni yn sgwrsio dros baned ar gadeiriau esmwyth, tra bod y babanod a'r plantos lleiaf yn chwarae wrth eu traed. Mae'r plant hynaf yn chwarae o gwmpas yr ystafell dan arweiniad Catrin, Bethan ac Elain. Ar ôl cyfnod o chwarae rhydd mae'r plant wrth eu bodd yn dod i eistedd wrth y bwrdd i wneud crefftau amrywiol, sydd wedi eu cysylltu ag adnod perthnasol. Mae'r campweithiau yn aml yng nghefn y capel, i'w gweld a'u hedmygu. Erbyn hyn mae'r plant a'r oedolion yn barod am ddiod a chacen (neu ddau, neu dri yn achos rhai, heb enwi neb...).

Fel arfer cawn gyfle i ganu gyda'n gilydd tua diwedd y sesiwn. Mae gennym ni lyfr canu, sy'n cynnwys amrywiaeth o ganeuon plant a chaneuon Cristnogol, a chaiff pob plentyn yn ei dro gyfle i ddewis cân o'r llyfr.

Gobeithio bod yr achlysur yn orffwys i rieni, yn hwyl i'r plant, ac yn gyfle i annog ein gilydd, rhannu cymdeithas ac chroesawu ymwelwyr. Gwerthfawrogir eich gweddïau dros y gwaith.

Catrin Lewis

Clwb yr Hapus Awr

Bydd Clwb yr Hapus Awr yn dechrau bob tro gyda gêm hollbwysig o bêl-droed! Nod y gem i'r plant yw curo'r oedolion

– er efallai mai ond un neu ddau fydd yno yn erbyn y plant i gyd! Mae'r sgôr yn weddol gyfartal erbyn hyn, rwy'n credu!

Ar ôl chwysu'n galed mae'n amser cael diod a bisged cyn gweld pwy sydd wedi gwneud eu gwaith cartref a dysgu'r adnod a gafwyd yr wythnos flaenorol. Bydd pawb sy'n cofio yn cael losin, ac yna dechreuwn ar y gwaith o ddysgu'r adnod nesaf fel bod gobaith newydd i'r rhai sydd â chof gwael!

Stori amdani wedyn, a'r oedolion yn cymryd eu tro. Fel arfer byddwn yn dilyn cymeriad fel Dafydd, Daniel neu Solomon, ond eleni rydym wedi penderfynu dysgu gwynfyd newydd bob wythnos gan ddangos yr hyn mae'r wynfyd yn ei ddysgu trwy gymryd esiampl o fywyd cymeriad yn y Beibl. Roedd ceisio meddwl am gymeriad i bob gwynfyd yn dipyn o her i'r tîm ond rwy'n siŵr ei bod yn dda i ni, yn ogystal â'r plant, i ddysgu rhywbeth newydd!

Ar ôl y stori byddwn yn chwarae gêm arall, gwneud rhyw fath o gelf, coginio neu gael cwis cyn uchafbwynt y clwb, sef y siop losin! Ar ôl y prynu brwd, daw'r clwb i ben am wythnos arall – a phawb yn synnu fod yr awr wedi mynd mor gyflym!

Bethan Haf Davies

Clwb y bobl ifanc

Dyma glwb i ddisgyblion ysgol uwchradd. Ry'n ni'n cwrdd yn y capel bob nos Wener am saith o'r gloch i ddysgu mwy am Iesu Grist, astudio Gair Duw a chael llawer o hwyl !!

Ar hyn o bryd mae tua deg yn dod i'r clwb yn rheolaidd a dau neu dri arall yn dod yn achlysurol, a chymysgedd ydynt o bobl ifanc y capel a'u ffrindiau ysgol. Bechgyn i gyd – heblaw am Luned – ac felly rydyn ni'n dwy yn cael ein 'girly chats' wythnosol ymysg y gemau pêl-droed a rygbi. Mae pedwar ohonom o aelodau'r capel yn gyfrifol am y clwb o wythnos i wythnos (Gwydion, Dewi, Iwan Rees a fi), ac rydyn ni'n hynod o ddiolchgar i unigolion eraill sy'n helpu allan yn achlysurol.

Petaech yn cerdded i mewn i'r clwb ar nos Wener, un o'r pethau fyddai yn eich taro, dwi'n credu, ydy'r awyrgylch hynod o gyfeillgar, hamddenol a 'chilled' sy'n bodoli rhwng y



bobl ifanc. Mae'n wir i ddweud eu bod nhw'n hawdd iawn i'w plesio ac yn ddiolchgar iawn am bob dim sy'n cael ei ddarparu a'i baratoi ar eu cyfer.

Patrwm y noson fel arfer ydy – sgwrsio/taflu pêl o gwmpas tra bod pawb yn cyrraedd, yna gweithgaredd – un ai gêm gystadleuol o bêl-foli, hoci neu'r gêm fythgofiadwy honno, pêl-droed pen-ôl, crefftau, coginio, cwis, gemau bwrdd, pŵl, tenis-bwrdd a 'foose ball' a 'Mafia' – gêm boblogaidd yn y clwb (ond nid i Owain James, druan, sy'n cael ei 'ladd' yn y rownd gyntaf fel arfer.)

Yna, cawn epilog gyda Gwydion neu Dewi yn arwain. Dyma gyfnod o ryw hanner awr pryd rydyn ni'n astudio'r Beibl ac yn trafod gyda'n gilydd. Bob hanner tymor rydyn ni'n dilyn thema arbennig, ac yn ystod tymor y Nadolig buon ni'n edrych ar lefydd pwysig yn y Beibl fel Gardd Eden a Bethlehem. Rydyn ni'n annog y bobl ifanc i siarad â'i gilydd ac i'n holi ni am y materion sy'n codi o'r epilogau.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'm cyd-weithwyr am eu paratoi cyson a'u hymrwymiad, a hefyd diolch i Dduw am y fraint o gael cynnal y clwb yn y lle cyntaf a'r fraint o gael gweithio gyda'r bobl ifanc, hyfryd yma, eu gweld nhw'n ymdrin â'i gilydd yn ofalus a gweld Duw yn gweithio yn eu bywydau.

Petaech yn gallu cofio am waith y clwb yn eich gweddïau, byddem yn dra ddiolchgar. Gweddïwch os gwelwch yn dda :

- bydd Duw yn parhau i siarad â'r bobl ifanc ac ymwneud â nhw
- bydd awyrgylch hyfryd yn parhau i fodoli ymysg y bobl ifanc
- byddwn ni fel oedolion yn dibynnu ar Dduw ac nid ar ein nerth ein hunain i gyflawni pob dim er dwyn clod iddo Ef.
- bydd y bobl ifanc yn teimlo'n rhydd i wahodd ffrindiau eraill i ddod i'r clwb.

Amanda Griffiths

Addunedau ac

Steffan Elis

A hithau eisoes dros fis cyfan ers y cyntaf o Ionawr, tybed faint o bobl sy'n dal i gadw eu haddunedau blwyddyn newydd? Tybed faint o bobl a wnaeth yr un adduned eleni â'r llynedd – ac am hynny, yr un adduned ag a wnaethon nhw ers sawl blwyddyn?

A hithau eisoes dros fis cyfan ers y cyntaf o Ionawr, tybed faint o bobl sy'n paratoi ar gyfer y cyntaf o Ionawr 2010, er mwyn cael cynnig arall ar gadw'r un adduned?

Mae addunedau'n dweud lot am berson. Maen nhw'n dangos yr un peth hwnnw y mae'r unigolyn yna'n meddwl y byddai'n gwneud ei fywyd yn haws neu'n well. Yn aml mae adduned yn gwneud pwy yr hoffech chi fod yn fwy nag amlwg.

Yn bersonol, rwy'n tueddu i feddwl bod addunedau blwyddyn newydd yn bethau eithaf od – addewidion y cewch chi eu torri. Addewidion nad oes neb yn disgwyl i chi eu cadw mewn gwirionedd. Ai dyna yr y'm ni'n ei ddisgwyl fel arfer, wrth i rywun addo rhywbeth i ni? Mentrwn ddweud bod person fel arfer yn disgwyl mwy na hynny wrth dderbyn addewid gan rywun arall.

A bod ychydig yn brofoclyd am eiliad, beth y'ch chi'n meddwl fyddai adduned blwyddyn newydd Duw'r Beibl? Efallai eich bod chi'n tybio y dylai Duw wneud adduned tebyg i 'eleni, caf i wared ar dlodi', neu 'eleni, rhodda i stop ar ddioddef', neu hyd yn oed 'eleni, fe ddof i â heddwch trwy'r byd i gyd'. Nid yw Duw'r Beibl yn gwneud addunedau blwyddyn newydd, ond mae'r Beibl yn cynnwys rhai o addewidion Duw. Yn nechrau'r Beibl, llyfr Genesis pennod 3 ac adnod 17, mae Duw yn addo ei Fab ei hun. Addewid eithaf od ar yr olwg gyntaf, efallai. Ond mae cryn dipyn yn fwy iddo na dim ond addo ei Fab . . .

Mae Duw yn addo rhoi un fydd yn concro pechod a'r diafol trwy farw ar y groes yn ein lle, ac yn atgyfodi i roi gobaith i ni am fywyd tragwyddol. O ddechrau'r Beibl yn deg, mae

Addewidion

Duw yn addo y bydd Iesu Grist yn dod i'r byd. Pam? Os trowch i Genesis 3, fe welwch yr hanes cyntaf am ddyn yn gwrthryfela yn erbyn Duw. Mae'r gwrthryfel hwn fel petai yn ein *genes* fel pobol, ac mae'n ein hatal rhag gallu cael perthynas â'r Duw a'n creodd ni.

Mae'r addunedau blwyddyn newydd dychmygol yna y gallai Duw eu gwneud yn rhai da yn sicr – mae tlodi, dioddefaint a rhyfel yn broblemau enbyd. Ond y gwir yw, os dim ond stopio'r rhyfel neu'r anghyfiawnder y byddai Duw yn ei wneud, fyddai dim byd yn newid go iawn. Yn hytrach, mae Duw yn mynd at wraidd y broblem – mae Duw yn delio ag angen dyfnaf dyn: y galon wrthryfelgar. Dyna pam y ceir yr addewid hwn yn Genesis 3: mae Duw yn addo delio â'r broblem trwy roi ei Fab ei hun yn ein lle er mwyn cymryd ein cosb ni a rhoi ffordd i ni ddod at Dduw.

llun: www.freeimages.co.uk

Os yw addunedau blwyddyn newydd yn dweud rhywbeth am natur person, beth mae'r addewid yma yn ei ddweud wrthym am Dduw? Mae'n dweud yn syml iawn ei fod Ef yn ein caru – ie, er gwaethaf ein gwrthryfel. A'r newyddion gwych yn hyn i gyd yw bod Duw wedi cadw ei addewid – daeth Crist i'r byd i wneud hyn i gyd, ac ond inni roi ein ffydd ynddo ef, fe gawn ni brofi maddeuant llawn am ein gwrthryfel.

Ble y'ch chi arni gyda'ch addunedau eleni? Rwy'n gobeithio'n fawr eich bod chi'n dal i'w cadw. Os y'ch chi, wel beth am wneud un arall? Ac os y'ch chi eisoes wedi torri'ch adduned, beth am wneud un newydd? Beth am ffeindio allan mwy am Dduw'r Beibl? Yr un sydd byth yn torri ei addewidion, yr un sydd wedi addo delio â'n problem ddyfnaf ni, ac sydd wedi rhoi ei Fab yn aberth yn ein lle er mwyn ein hachub.

Y Cristion a'r A

John Emyr

Newid Hinsawdd? Newid ffordd o fyw . . .

Cynhaliwyd cynhadledd ar y pwnc uchod ar 25 Tachwedd y llynedd yn Eglwys Fedyddiedig Calfaria, Caerdydd. Trefnwyd y gynhadledd gan Tearfund yng Nghymru, y Gynghrair Efengylaidd ac Undebau Cristnogol y Colegau (UCCF). Mae'r trefnwyr i'w llongyfarch am lunio rhaglen ddiddorol, addysgiadol ac ymarferol.

Y cyntaf i annerch oedd y Cristion a'r gwyddonydd Syr John Houghton. Gan iddo arloesi ym maes canfod a dadansoddi cynhesu byd-eang, bu'n gyd-Gadeirydd Panel y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd. Gwyddem, felly, ein bod yn cael gwybodaeth o lygad y ffynnon drwy wrando ar arbenigwr a siaradai â ni, yn syml a diymhongar, fel meistr yn ei faes a brawd yn y ffydd a chanddo rywbeth o bwys i'w rannu.

Gyda chymorth lluniau a diagramau, esboniodd yr argyfwng sy'n deillio o newid hinsawdd. Nid oes amheuaeth, meddai, ynglŷn â ffenomen cynhesu byd-eang. Mae'r blanced o awyr sy'n amgylchu ein planed ac yn ein hamddiffyn rhag pelydrau mwyaf niweidiol yr haul yn mynd yn fwy trwchus oherwydd y nwyon carbon yr ydym ni, fel dynoliaeth, yn eu rhyddhau o'n ceir, ein tai, etc. Y canlyniad yw'r 'effaith tŷ gwydr', sef bod atmosffer y byd yn cynhesu fwyfwy. Er nad yw canlyniad uniongyrchol y cynhesu hwnnw'n ymddangos fel peth niweidiol, dros gyfnod o amser gall fod yn drychinebus, ac rydym eisoes yn dechrau gweld yr effeithiau.

Un o'r effeithiau mwyaf niweidiol yw bod y rhew ym mhegynau'r ddaear yn dadmer. Canlyniad y dadmer hwnnw yw bod lefel y moroedd yn codi. O ganlyniad, bydd y bobl sy'n byw ar iseldiroedd fel delta Bangladesh yn gorfod symud i fyw i leoedd eraill oherwydd bod eu cartrefi presennol yn cael eu colli i'r môr. Ond i ble y bydd y miliynau digartref yn symud? Eisoes mae rhai gwledydd

yn amddiffyn eu morlin rhag ffoaduriaid o'r fath.

Soniodd Syr John am y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd. Mae gwefan y Panel (www.ipcc.ch), meddai, yn rhoi llawer o wybodaeth am y wyddoniaeth berthnasol. Cyfeiriodd hefyd at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, a gynhaliwyd yn Rio de Janeiro yn 1992. Nid peth newydd yw'r argyfwng hwn, meddai. Mae'r ffeithiau wedi bod yn hysbys ers blynyddoedd, ac un o'r llyfrau sy'n egluro'r sefyllfa'n effeithiol, meddai Syr John, yw *Six Degrees: Our Future on a Hotter Planet* (gw. http://www.marklynas.org/2007/2/3/six-degrees). Er mai llyfr 'poblogaidd', y gall rhai nad ydynt yn arbenigwyr ei werthfawrogi yw hwnnw, enillodd wobr y Gymdeithas Frenhinol ac mae'r awdur, Mark Lynas, yn wyddonydd dawnus.

Esboniodd Syr John ymhellach bod rhaid i wledydd cyfoethog helpu'r gwledydd tlawd drwy leihau'r niwed a wneir i'r amgylchedd oherwydd allyriadau CO_2. Dylai'r gwledydd cyfoethog a'r gwledydd tlawd ymdrechu i ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Canmolodd bolisïau Cynulliad Cenedl-aethol Cymru gan ychwanegu bod gennym ni yng Nghymru gyfrifoldeb arbennig oherwydd y polisïau hynny. Dylem fod yn stiwardiaid cyfrifol sy'n gofalu am y ddaear a'i thrigolion – yn arbennig y tlawd a'r diamddiffyn.

Pa weithredu sy'n angen-rheidiol?

- Gwneud popeth a allwn i atal y datgoedwigo difaol sy'n troi coedwigoedd Brasil yn ddiffeithwch
- Mynnu cael dulliau mwy effeithlon o gynhyrchu ynni
- Gofalu bod ein hadeiladau, boed hen neu newydd, yn llawer mwy effeithlon o ran faint o ynni a ddefnyddiant
- Pwysleisio pwysigrwydd dal a storio carbon
- Cynhyrchu ynni mewn modd adnewyddadwy. Gallem gael 20% o ynni Prydain drwy ddefnyddio grym llanw a thrai

- Rhannu cyfoeth a sgiliau. Er canllawiau'r Beibl ar rannu, yn rhyngwladol mae ein record yn wael iawn. Mae'r cyfoethog yn ymgyfoethogi drwy fanteisio ar y tlawd. Felly, dylem helpu'r gwledydd tlawd.

Tua saith mlynedd sydd gennym, meddai Syr John, i fynd i'r afael â phroblem cynhesu byd-eang cyn i'r broblem honno gynyddu y tu hwnt i reolaeth. Oes rhesymau i obeithio? Oes. Mae'r gymuned wyddonol fyd-eang yn rhoi rheswm i obeithio. Mae'r dechnoleg angenrheidiol eisoes ar gael. Yn bennaf oll, mae Duw wedi ymrwymo i'w greadigaeth. Mae Ef yn bartner i ni wrth i ni ailafael yn ein tasg o ofalu am y greadigaeth. Mae'r Arglwydd Iesu am fod yn bartner i ni ym mhopeth a wnawn – nid 'y pethau ysbrydol yn unig'. Efallai bod Duw yn siarad â ni drwy argyfwng cynhesu byd-eang, sy'n dangos ein hunanoldeb a'n hawydd i gael rhagor o gyfoeth a phethau materol ar draul ein cyd-ddyn. I gloi, dywedodd Syr John mai 'Iesu oedd yr asiant y daeth y greadigaeth i fod drwyddo. Gadewch i ni obeithio, a gadewch i ni gyfleu'r pethau hyn i'n teuluoedd a'n Llywodraeth.'



Ar gyrion y Sahara, Moroco, Ionawr 2009 (llun: John Emyr)

Y Parch. Ddr John Weaver oedd y siaradwr nesaf. Gan ddyfynnu o Genesis 1 a 2, Rhufeiniaid 8:18-22 a Datguddiad 22:12-13, soniodd yntau am ein cyfrifoldeb fel stiwardiaid a'n braint o fod yn rhan o gynllun Duw ar gyfer ei greadigaeth. Eglurodd, fodd bynnag, y byddai cynnydd o ddau y cant yn nhymheredd cyfartalog y byd yn peri prinder dŵr. Dangosodd luniau a dynnwyd ganddo yn Nepal lle ceir problemau prinder dŵr, prinder trydan a diflaniad y rhew. Mae Duw yn disgwyl i ni ofalu am y ddaear, ond yr hyn a welwn yw diffyg gofal am fyd natur, dihidrwydd tuag at gymunedau pobl eraill, a bywydau'n cael eu dinistrio o'r herwydd.

Dylem uniaethu â'r tlawd. Os yw Crist yn ein bywyd, dylem fod yn rhan o'r gymuned ehangach ac nid unigolion ynysig. Dylem fyw fel petai Crist wedi dychwelyd eisoes, ac mae Ysbryd Duw yn ein cynorthwyo 'i fod yr hyn ydym'. Mae'r Sabath hefyd yn ein hatgoffa mai'r Creawdwr yw Duw, a bod ganddo gonsýrn arbennig am y tlawd. Nid yw byw dan awdurdod y Beibl yn golygu bod gennym hawl i fyw'n hunanol. Pechod yw'r prif ffactor sy'n arwain at ddinistrio'n hamgylchedd. Ond mae'r Sabath yn ein helpu i fod yn fodlon ar yr hyn a roddwyd i ni. Efallai bod gan y byd oddeutu 20 mlynedd i feddwl a gweithredu mewn modd fydd yn gwneud gwahaniaeth i ddyfodol y blaned, meddai John Weaver. Rhan fawr o'r ateb i'r argyfwng yw ein bod ni yn newid ein ffordd o fyw. Er hynny, er ein bod yn gwybod beth y dylem ei wneud, yn amlach na pheidio nid oes gennym yr ewyllys i weithredu'n effeithiol. Y cysur yw bod Duw yn fodlon bod yn bartner i ni, a dylai'r eglwys ddangos esiampl. Mae gennym gyfraniad i'w wneud. Dylem feddwl mewn modd ecolegol, gan roi sylw i'n hôl-troed ecolegol. Pa mor ecolegol yw ein cynulleidfaoedd? Ni ddylai cyfanswm carbon pob unigolyn fod yn fwy na dwy dunnell y flwyddyn. Dylem fyw yn symlach ac ymdrechu i beidio ag ychwanegu at broblem cynhesu byd-eang.

Wedi'r anerchiadau cafwyd trafodaethau buddiol oedd yn cynnwys:

(parhad ar dudalen 19)

Holi Hwn a Hon

Catrin

Sut y dest ti'n Gristion?
Ces i'r fraint o gael fy magu ar aelwyd Gristnogol ac fel rhan o eglwys, gyda'r Beibl yn ganolog yn y ddau le. Rydw i wedi credu'r Beibl, credu yn Nuw, credu yng Nghrist, credu yn fy angen a chredu'r Aberth a'r Atgyfodiad ers imi gofio; yr hyn roeddwn i ei angen oedd sicrwydd i gredu, nid just y ffeithiau yn fy meddwl, ond credu gyda fy holl galon a'm holl enaid fel y gofynna Crist. Bu hyn yn broses dros gyfnod, wedi'i hybu gan wersyll ym Mryntirion, ac mewn gwirionedd mae'n parhau i ddigwydd trwy ystyried o ddifrif a dod i gasgliadau fy hun am wirioneddau'r Gair – a hyn o ganlyniad i brofiadau, i ddysgeidiaeth neu wrth gwrdd â phobl wahanol.

Beth yw dy hoff emyn/cân ysbrydol?
Anodd yw dewis un! Fy hoff emyn Saesneg yw *It is Well with my Soul* gan Horatio Spafford – emyn llawn gobaith sy'n codi'r ysbryd bob tro. Mae'r thema o gyfrif bendithion a diolch yn hwb mawr os ydw i'n teimlo'n bell neu'n ddi-egni – er i Spafford ein hatgoffa ni

Gardiner

taw dysgu ac ymarfer sydd ei angen: 'Thou hast taught me to say: / It is well, it is well with my soul!'.

Mewn hen lyfr o *spirituals* a oedd gan hen wncwl imi, mae un gân rydw i'n hoff iawn ohoni. Ynddi mae'r awdur yn meddwl sut fath o le fydd y nefoedd ac mae am ddeall a gwybod mwy. Mewn un pennill, meddylia p'un fydd y gân hyfrytaf y bydd y Saint yn ei chanu yn y nefoedd, 'when we go in to see the King / Redeemed and sin forgiven'. Ond gŵyr 'there will be / no sweeter theme than this – / the Love that led me on to where my loving Saviour is!'. Rydw i'n hoff o'r gân yma am ei symlrwydd a'i gobaith wrth ganolbwyntio ar y Nef a'r pethau ysgrythurol sicr sydd i'w disgwyl:

Oh Heaven, sweet Heaven,
Fair land of rest,
How I long to be there
And its glories share
And to lean on Jesus' breast.

Beth sy'n help i ti yn dy gerddediad ysbrydol?
Mae hymian hoff emynau yn help mawr! Does dim modd i 'The sky not the grave is our goal!', o emyn Spafford, beidio â chodi'r galon a'r meddwl.

Un agwedd sy'n help mawr i mi yw cyd-Gristnogion. Mae cyfeillgarwch o unrhyw fath yn help i bob dyn, ond arbennig iawn yw cyfeillgarwch rhwng Cristnogion, ac rydw i'n cynnwys fy rhieni ac Andy o dan y faner yma. Mae gallu rhannu meddyliau, profiadau a chonsyrns ysbrydol yn bwysig yn y berthynas rhwng Cristnogion a'i gilydd, er does dim rhaid trafod pethau ysbrydol i gael budd ysbrydol.

Sut wnest ti ac Andy gyfarfod?
Cyfarfod mewn clwb nos! Roedd Andy newydd symud i Gaerdydd o Fryste ac yn cwrdd â ffrindiau yn *Moloko* lle'r roeddwn i a chriw o ffrindiau (gan gynnwys Eleri G!). Roedd

ei ffrindiau e yn ffrindiau i fi hefyd, felly dyma gyfarfod a dechrau siarad. Am ryw reswm daethom i drafod llyfrau ac Andy'n dweud taw ond dau lyfr roedd erioed wedi eu darllen o glawr i glawr – *The Magic Finger* gan Roahl Dahl a'r Beibl! Felly darganfod ein bod ni'n dau'n Gristnogion ac Andy'n chwilio am gapel i fynd iddo. A dyna'r dechrau!

Pa fath o lyfrau wyt ti'n hoffi eu darllen?
Rydw i wrthi'n ail-gydio yng nghyfres Dr Martin Lloyd Jones ar Rufeiniaid – bron â gorffen y cyntaf felly bydd hi'n 2020 erbyn i fi orffen y cyfan!

Rydw i'n darllen cylchgronau a llyfrau celf a chynllunio'n wythnosol, er diddordeb personol ac er mwyn cadw ar flaen y gad yn fy ngwaith.

Er nad ydw i'n darllen nofelau yn rheolaidd, unwaith bod gen i amser, e.e. gwyliau'r Nadolig, rydw i'n dueddol o ddarllen beth bynnag sydd wrth law / anrheg / anrheg mam neu dad, a darllen y llyfr cyfan mewn awr. Heblaw hynny, fy hoff awdur Cymraeg yw Angharad Tomos – mae ei chyfuniad o drafod crefydd ac agweddau ffeministaidd yn apelio. Fy hoff lyfr Cymraeg yw *O! Tyn y Gorchudd* gan Angharad Price – mae wedi'i ysgrifennu mor hyfryd, rydw i'n ei ddarllen o leia ddwywaith y flwyddyn.

I'r Dyddiadur...

Oedfa Ddathlu Gwyl Ddewi
Croeso mawr i bawb i'r oedfa ar ddydd Sul, Mawrth 1. Bydd paned ar gael cyn yr oedfa am 10.30am, gyda'r cwrdd yn dechrau am 11.00. Bydd cawl yn dilyn yr oedfa.

Dysgwyr
(Dydd Sadwrn am 10.30am)
Chwef. 21 - Cerddi Dr Christine James
Mawrth 21 - Y Gymraeg yng Ngwent
Ebrill 18 - Un o gerddi Gwenallt
Mai 16 - Mari Jones a'i Beibl
Meh. 20 - Idiomau Cymraeg

Cyrddau Eglwys Newydd
Am 6.30pm ar ail Sul bob mis yn Eglwys Tabernacl, Heol Merthyr.

(parhad o dudalen 15)

- Helpu'r eglwys leol i feddwl mewn ffordd fyd-eang
- Cynnal dialog rhwng gwyddoniaeth a Christnogaeth
- Addysgu ein gilydd i ymatal rhag gwastraffu; e.e. gwastraffu ynni drwy wifro ffôn symudol dros nos. Mae dwy awr yn ddigon
- Dylem gofio diffodd y switsh trydan a'r 'standby'
- Dylai pob cwmni gael rhywun i fod yn gyfrifol am ddiffodd y goleuadau trydan
- Dylem gadw pwnc cynhesu byd-eang ar yr agenda drwy lythyru â'n cynrychiolwyr gwleidyddol
- Yn gyffredinol, gwastraffir tua 30% o'r bwyd a brynwn. Ond gorchymyn Iesu Grist i'w ddisgyblion oedd 'Casglwch y tameidiau sy'n weddill, rhag i ddim fynd yn wastraff' (Ioan 6:12)
- Mae rhwydwaith 'Micah Challenge' (http://www.micahchallenge.org/) yn cynorthwyo drwy gysylltu cyrff perthnasol ledled y byd
- Dylem ystyried yn fwy gofalus pa fwydydd i'w prynu
- Dylem gynnal archwiliad carbon i weld beth yw ein hôl-troed carbon. Mae gwefannau fel http://wales.gov.uk/walescarbonfootprint yn rhoi canllawiau a chymorth.

Un o'r pethau a wnaeth argraff arnaf yn y gynhadledd yw'r hyn a ddywedodd un o'r trefnwyr, Dr Dewi Arwel Hughes, sef nad yw cyfoeth yn creu hapusrwydd. Ni ddylem ddisgwyl cael mwy a mwy o arian a phethau, na mwy na'n siâr o adnoddau'r ddaear. Yn hytrach, dylem ddysgu byw ar lai. Efallai y byddwn yn canfod ein bod fwyaf hapus pan nad ydym yn rhy dlawd nac yn rhy gyfoethog: 'paid â rhoi imi dlodi na chyfoeth' (Diarhebion 30:8).

Llwyddodd y gynhadledd i brocio'n cydwybod a sbarduno'n meddwl i ystyried ein cyfrifoldeb tuag at y ddaear a roddwyd i'n gofal gan Greawdwr hael. Go brin y bydd yr Arglwydd yn canmol rhai sy'n byw mewn modd hunanol a difater. 'Disgwylir llawer gan y sawl a dderbyniodd lawer' (Luc 12:48).

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni, Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org